

RhCT Mwy Diogel

NA | DROSEDD
CASINEB

Gweld | Clywed | Adrodd

Canllaw i fynd i'r afael â materion

TROSEDD CASINEB

CYNGOR BWRDEISTREF SIROL RHONDDA CYNON TAF
A HEDDLU DE CYMRU
CADW RHONDDA CYNON TAF YN DDIOGEL



Rhondda Cynon Taf

Community Safety Partnership
Partneriaeth Diogelwch Cymunedol



STRONG HERITAGE | STRONG FUTURE

RHONDDA CYNON TAF

TRETTADAETH GADAMN | DYFODOL MWR



Rydyn ni'n ceisio sicrhau bod "pawb yn teimlo'n ddiogel ac yn hyderus, beth bynnag yw ei anabledd, hunaniaeth o ran rhywedd, hil, crefydd neu gred, neu gyfeiriadedd rhywiol"

Beth yw Trosedd Casineb?

Mae Trosedd Casineb yn drosedd sy'n cael ei hystyried, gan y dioddefwr neu rywun arall, yn un sydd wedi ei hysgogi gan elyniaeth neu ragfarn ar sail gwirionedd neu ganfyddiad ynglŷn â'i anabledd, hil, crefydd a chred, cyfeiriadedd rhywiol a hunaniaeth drawsryweddol.

Beth yw Digwyddiad Casineb?

Mae Digwyddiad Casineb yn ddigwyddiad sydd ddim yn drosedd ac sy'n cael ei ystyried, gan y dioddefwr neu rywun arall, yn un sydd wedi ei ysgogi gan elyniaeth neu ragfarn ar sail gwirionedd neu ganfyddiad ynglŷn â'i anabledd, hil, crefydd a chred, cyfeiriadedd rhywiol a hunaniaeth drawsryweddol.

Mae mynd i'r afael ag achosion o drosedd casineb yn flaenoriaeth uchel ar gyfer Carfan Cymunedau Diogel Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf a Heddlu De Cymru.

Trwy gymryd camau cadarn yn erbyn y cyflawnwyr, cefnogi anghenion y dioddefwyr a gweithio ar y cyd ag asiantaethau allanol, rydyn ni o'r fam ein bod ni'n gallu sicrhau bywyd mwy diogel i'r bobl hynny sy'n dioddef achosion o drosedd casineb. Rydyn ni hefyd yn cyflawni hyn trwy ddiogelu eu teuluoedd a'u cymunedau, a thrwy atal yr achosion hyn rhag digwydd eto.

Os ydych chi o'r fam bod achos o drosedd casineb wedi effeithio arnoch chi, gadewch i ni eich helpu chi. Byddwn ni'n cynnig cefnogaeth i chi, ac yn rhoi cyngor a chymorth ymarferol i'ch helpu chi i fynd i'r afael â'ch pryderon.

I roi gwybod am achos o drosedd casineb neu ddigwyddiad casineb

FFONIWCH 101 OS DOES DIM ARGYFWNG

FFONIWCH 999 OS OES ARGYFWNG

Pam rhoi gwybod am achos o drosedd casineb neu ddigwyddiad casineb?

Mae achosion o drosedd casineb yn gwneud drwg i ni i gyd. Mae'n anelu ergyd at wraidd ein cymunedau. Mae diogelu'r bobl sy'n byw yn ein cymunedau yn bwysig i ni. Rydyn ni ar gael i helpu unrhyw un sydd wedi cael ei effeithio gan achos o ragfarn, anwybodaeth neu drais.

Byddwn ni'n manteisio ar aelodau pwrpasol o staff er mwyn gwneud ein gorau glas i'ch helpu chi.

Weithiau, mae'n anodd gwybod a yw'r hyn sydd wedi digwydd i chi yn drosedd.

Os ydych chi o'r farn eich bod chi wedi dioddef achos o drosedd casineb, hyd yn oed os dydych chi ddim yn siŵr, gofynnwch i ni.

Ein gwaith ni yw amlygu'r hyn sydd wedi digwydd a sicrhau bod camau priodol yn cael eu cymryd.

Byddwn ni'n cadw mewn cysylltiad â chi drwy gydol yr ymchwiliad; o'r dechrau i'r diwedd.

Dod o hyd i gymorth i chi

Os byddwch chi'n fodlon, byddwn ni'n gallu eich rhoi chi mewn cysylltiad â sefydliadau cymorth eraill sy'n deall eich anghenion penodol.

Eich diogelu chi

Os bydd hi'n briodol, byddwn ni'n cymryd camau gorfodi i'ch diogelu chi rhag rhagor o niwed. Ym mhob achos, byddwn ni'n rhoi ystyriaeth i'ch dymuniadau wrth benderfynu pa gamau i'w cymryd, a byddwn ni'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi am eich achos bob cam o'r ffordd.

Rhoi arweiniad i chi

Byddwn ni'n sôn wrthydd chi am y broses trosedd casineb gyfan, fel eich bod chi'n gwybod beth sy'n digwydd, a pham. Er enghraifft, mae'n bosibl y byddwn ni eisiau i chi roi datganiad, sy'n esbonio'r hyn sydd wedi digwydd. Os byddwch chi'n mynd i'r llys, byddwn ni'n gallu esbonio proses y llys i chi a rhoi gwybod i chi am yr hyn y bydd disgwyl i chi ei wneud.

Sut mae rhoi gwybod am achos o drosedd casineb neu ddigwyddiad casineb?

Os ydych chi wedi dioddef achos o drosedd casineb neu ddigwyddiad casineb, rhowch wybod i ni drwy ffonio:

**101 os does dim argyfwng
999 os oes argyfwng**

Neu ffoniwch:

Cymorth i Ddioddefwyr 0300 3031982

Mae POB galwad yn gyfrinachol ac mae croeso i chi beidio â rhoi eich enw.

Rydych chi'n gallu rhoi gwybod am achos o drosedd casineb neu ddigwyddiad casineb hyd yn oed mewn achos sydd heb ei anelu atoch chi. Er enghraifft, mae'n bosibl eich bod chi'n ffrind, yn gymydog, yn aelod o'r teulu, yn weithiwr cymorth neu'n digwydd mynd heibio. Dydy rhai dioddefwyr a thystion ddim yn teimlo'n gyfforddus yn rhoi gwybod i'r Heddlu, ac mae'n bosibl y byddai'n well ganddyn nhw roi gwybod i rywun sy'n fwy cyfarwydd iddyn nhw, fel swyddog tai lleol, neu drwy ffonio'r rhif Cymorth i Ddioddefwyr, uchod.

CYNGOR BWRDEISTREF SIROL RHONDDA CYNON TAF
A HEDDLU DE CYMRU
CADW RHONDDA CYNON TAF YN DDIOGEL

Rydyn ni'n ceisio sicrhau bod "pawb yn teimlo'n ddiogel ac yn hyderus, beth bynnag yw ei anabledd, hunaniaeth o ran rhywedd, hil, crefydd neu gred, neu gyfeiriadedd rhywiol"